


GwerthwchiGymru
Sell2Wales

# Sign On Cymru

## Cyflenwr Newydd - Cofrestru eich cyfrif gydag SOC

gwerthwchigymru.llyw.cymru

0800 222 9004

GwerthwchiGymru
Sell2Wales

## Sign On Cymru

Mae 'Sign On Cymru' yn golygu y bydd angen cael un enw defnyddiwr a chyfrinair yn unig i bob unigolyn i gael mynediad i wasanaethau cymorth busnes digidol yn y dyfodol, gan ddisodli'r system gyfredol o gael nifer o gyfrineiriau mewngofnodi gwahanol wedi'u cysylltu â phob gwasanaeth a gyrchir trwy wasanaethau digidol Busnes Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys Busnes Cymru, BOSS, cofrestr rhanddeiliaid, cyfeirlyfr busnes, system rheoli digwyddiadau a Phorth GwerthwchiGymru.

## Sut i gofrestru ar GwerthwchiGymru gan ddefnyddio SOC

Ewch i hafan GwerthwchiGymru – **GwerthwchiGymru.llyw.Cymru**

Cliciwch **Cofrestru am ddim** - Cewch eich trosglwyddo i'r dudalen wybodaeth SOC.

Cliciwch ar **Parhau I Sign on / Cofrestru** - cewch eich trosglwyddo i'r dudalen rhyngwyneb SOC.


Cliciwch ar y linc **"Heb cyfrif? Creu cyfrif nawr"**




GwerthwchiGymru
Sell2Wales

Rhowch gyfeiriad e-bost yr hoffech ei ddefnyddio i gofrestru ar GwerthwchiGymru.


Cliciwch ar **‘Anfon cod dilysu’.**





Bydd cod dilysu yn cael ei anfon at eich cyfeiriad e-bost.





Rhowch y cod a dderbyniwyd yn y maes cod dilysu ar y ffurflen SOC.




Cliciwch y **Gwirio’r Cod**



Rhowch eich cyfrinair newydd a chadarnhau hyn yn yr ail faes.




Cliciwch **Creu**, yna cewch eich trosglwyddo i'ch tudalen cofrestru cychwynnol.

## Cofrestru


Cliciwch **Cofrestrwch fel Cyflenwr** – cewch eich trosglwyddo i tab 1 eich **gosodiadau** cwmni.



GwerthwchiGymru
Sell2Wales


## Manylion sefydliad - Tab 1

Cwblhewch y meysydd gorfodol os gwelwch yn dda.




## Manylion cyfathrebu – Tab 2

Cwblhewch y meysydd gorfodol, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar eich dewis iaith cyfathrebu.



GwerthwchiGymru
Sell2Wales

## Proffil cyhoeddus/proffil canfod cyflenwyr - Tab 3


Cwblhewch y meysydd gorfodol os gwelwch yn dda.

## Beth yw Canfod Cyflenwr?

Mae Canfod Cyflenwr yn gyfeiriadur cyrchu cyflenwyr sy'n eich galluogi i hysbysebu eich cwmni ar y wefan. Mae'n eich galluogi i ddarparu gwybodaeth fanwl am y cynhyrchion neu'r gwasanaethau y byddech yn ddarparu.

Dyma rhai o'r manteision a gewch drwy ddiweddaru eich proffil:

- Gall prynwyr nawr ddod o hyd i'ch cwmni yn hawdd trwy'r adnodd chwilio Canfod Cyflenwr.
- Gallwch ddarparu allweddeiriau sy'n amlygu'n benodol y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddarperir gan eich cwmni. Mae’n bosib chwilio am y geiriau allweddol hyn.
- Mae’r gwasanaeth yn gwella eich siawns o dderbyn gwahoddiad uniongyrchol i ddyfynnu gan brynwyr a ddefnyddir "Dyfynbrisiau Cyflym".




**Proffil cyhoeddus -** Nodwch fanylion eich sefydliad yr hoffech iddo ymddangos yn y cyfeiriadur canfod cyflenwr.

**Rhanbarthau -** Dewiswch y rhanbarth(au) yng Nghymru yr hoffai eich cwmni wneud busnes ynddo/ynddynt. Gall prynwyr hefyd chwilio am gyflenwyr yn ôl rhanbarthau..

**Disgrifiad o'r Cwmni -** Nodwch ddisgrifiad o'ch cwmni o ran y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gennych. Ni all y prynwr chwilio am y disgrifiad hwn ond caiff ei arddangos ar eich proffil Canfod Cyflenwr. Gallwch nodi uchafswm o 4000 o nodau.

**Geiriau allweddol -** Gallwch nodi hyd at chwe gair allweddol sy'n disgrifio'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddarperir gennych ac sy'n gweithredu fel geiriau allweddol y gall y prynwr chwilio amdanynt. Nid oes angen i chi nodi chwech. Gallwch nodi 50 o nodau ym mhob blwch ac os oes angen, gallwch ddefnyddio mwy nag un gair ym mhob blwch.

Mae ein canllaw i’r proffil canfod cyflenwr i'w weld [yma]

GwerthwchiGymru
Sell2Wales


## Proffil Rhybuddion – Tab 4


Cwbwlhewch bob maes.

Bydd eich proffil rhybuddion yn eich galluogi i dderbyn rhybuddion a hysbysiadau e-bost ar gyfer cyfleoedd contract sy'n berthnasol i'ch busnes gan sicrhau eich bod yn manteisio i'r eithaf o GwerthwchiGymru.

Bydd **rhan gyntaf** y proffil rhybuddion yn gofyn i chi gwblhau’r categorïau cynnyrch sy'n berthnasol i'ch busnes. Bydd hyn yn crynhoi’r cyfleoedd contract a ddangosir, gan ddangos contractau sy'n berthnasol i chi yn unig.

Bydd yr **ail rhan** yn gofyn i chi am leoliadau daearyddol, bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i hidlo cyfleoedd contract yn ôl ardal ddaearyddol, gan ddangos contractau lle rydych chi'n barod i weithio yn unig.







GwerthwchiGymru
Sell2Wales

## Cofrestru arall – Tab 5

Cwblhewch y meysydd gorfodol os gwelwch yn dda .

Os nad ydych yn gwybod eich Rhif DUNS, gadewch y blwch testun yn wag a chliciwch **Chwilio**. Os ydych yn dal yn methu dod o hyd i'ch rhif DUNS gallwch ddefnyddio'r **blwch diweddaru yn hwyrach** i osgoi'r adran hon.


Cofrestru Cyflenwr

Manylion y Sefydliad | Manylion Cyfathrebu | Proffil Cyhoeddus | Proffil Rhybuddion | Cofrestriadau Eraill

Gofynnir i chi gwblhau / diweddaru'r wybodaeth ganlynol am unrhyw gofrestriadau eraill a allai fod gennych:

* Gwybodaeth ofynnol

**Rhif DUNS**

Mae'r Llywodraeth yn defnyddio rhif DUNS Dun & Bradstreet fel cyfeirnod unigryw neu unigolyn ar gyfer pob cwmni sy'n cyflenwi'r sector cyhoeddus. Nodwch eich rhif DUNS yn y blwch testun isod a chliciwch ar y botwm chwilio. Os nad ydych yn gwybod eich rhif **enw, y cyfeiriad** a'r **cod Post** a nodwyd gennych ar gyfer y sefydliad i chwilio am eich rhif DUNS os oes un gennych. Gallwch ddal ymateb i dendrau a diweddaruy eich manylion DUNS pan bydd eich manylion wrth law.

* Chwilio

Manylion Constructionline

Cronfa ddata genedlaethol ar-lein yw Constructionline ar gyfer contractwyr ac ymgynghorwyr sydd wedi cyn-gymhwyso, sy'n golygu nad oes rhaid i chi lenwi ffurflenni cyn-gymhwyso ar gyfer pob tendr adeiladu. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, gallwch gofrestru ar wefan Constructionline. Os ydych wedi cofrestru, nodwch eich rhif Constructionline isod.

Rhif Constructionline:

Cadarnhad

* Ticiwch i gadarnhau eich bod wedi darllen ein Telerau ac Amodau ac yn cytuno iddynt.

* Ticiwch i gadarnhau eich bod wedi darllen ein Polisi Preifatrwydd ac yn cytuno iddo.

Blaenorol | Cyflwyno Cofrestriad

Ar ôl gorffen cliciwch **Cyflwyno Cofrestriad**, bydd hyn yn dod â chi i'r dudalen gofrestru gyflawn.

I gael mynediad i'ch cyfrif cliciwch **Mewngofnodwch** a defnyddiwch y manylion a ddarparwyd gennych yn y broses SOC i fewngofnodi i'ch cyfrif GwerthwchiGymru.

Os methwch â chwblhau a safio’r proffil GwerthwchiGymru o fewn 24 awr o gofrestru, bydd eich cofrestriad "sign on Cymru" yn cael ei ddileu a bydd rhaid i chi gofrestru drwy SOC unwaith eto.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch â ni ar **0800 222 9004**.